

Sut mae mesur uchder eich ysgol (neu unrhyw goeden dal)

Un tro, roedd dyn a allai ddweud beth oedd uchder unrhyw beth: y goeden dalaf yn y parc, tŷ ei ffrind gorau, hyd yn oed y pyramidiau.

O gwmpas y flwyddyn 500 CC, teithiodd Thales, a oedd yn fathemategydd o wlad Groeg, i'r Aifft, gan ryfeddu at y Pyramid Mawr. Ond, pan holodd pa mor dal oedd y pyramid, doedd neb yn gwybod oherwydd nad oedd y waliau'n mynd i fyny yn syth. Doedden nhw ddim yn gallu gollwng llinyn o'r top i ganfod yr uchder. Llwyddodd Thales i fesur uchder y Pyramid Mawr gan ddefnyddio trionglau tebyg, lle mae'r onglau i gyd yr un fath. Mae hyn yn golygu bod yr ochrau bob amser yn gymesur â'i gilydd. Gan ddefnyddio ei ddull, byddwch chi a'ch tîm yn gallu mesur uchder unrhyw adeilad neu goeden.

Rhowch gynnig arni! Byddem wrth ein bodd yn gweld fideos a lluniau o sut rydych chi'n dod yn eich blaen.



"POB LWC"
JOHNNY BALL

Tric Thales:

Roedd meistr mathemategol o'r enw Thales yn gwneud triciau mathemateg yn hawdd,

Dangosodd sut y gallech chi weld beth yw uchder Pyramid, neu uchder adeilad neu goeden.

Dywedodd, "Cymerwch wialen, bolyn neu ffon, un eithaf hir er nad oes angen bod yn drwchus.

Plannwch y gwrthrych mewn tir gwastad, fel ei fod un metr yn union uwchben y ddaear.

Yna, arhoswch am ddiwrnod heulog braf, oherwydd wrth i belydrau'r haul ddisgleirio,

Byddan nhw'n bwrw dau gysgod ar y llawr,

Cysgod y ffon a chysgod yr adeilad neu'r goeden.

Felly, mesurwch hyd y ddau.

Y cysgod byr a'r cysgod hir, ill dau. Yna, bydd hyd cysgod y ffon, wedi'i rannu â hyd cysgod yr adeilad neu'r goeden, yn rhoi uchder y gwrthrych.

Boed hwnnw'n goeden neu'n adeilad, mewn metrau, mor fanwl ag y bo modd.



Sut mae mesur uchder eich ysgol (neu unrhyw goeden dal)

Mae hwn yn brosiect Mathemateg gwych ar gyfer plant oed ysgol gynradd. Beth am ei wneud ar Ddiwrnod y Rhifau neu cyn hynny? Rhannwch eich lluniau a'ch fideos gyda ni.



"POB LWC"
JOHNNY BALL

Bydd angen y canlynol arnoch chi:

- Rhywbeth mawr i'w fesur
- Ffon sydd dros fetr o uchder
- Tâp mesur
- Diwrnod heulog

Sut mae'n gweithio:

Mae'r gweithgaredd hwn yn defnyddio egwyddor trioglau tebyg.

Drwy fesur yn union o dan uchder mwyaf y goeden i ben y cysgod, yna rhannu hyd cysgod y ffon â hyd cysgod y goeden, byddwch yn canfod beth yw uchder y goeden mewn metrau gan gynnwys ffractsiynau degol.

Camau'r gweithgaredd:

1. Rhowch eich ffon yn y ddaear (gwnewch yn siŵr ei bod 1 metr o uchder)
2. Ar ddiwrnod heulog fe gewch gysgod y ffon a'r goeden neu'r adeilad

3. Mesurwch hyd y ddau gysgod

4. Gofalwch eich bod yn mesur cysgod y goeden yn union o dan y pwynt uchaf, hyd at ddiwedd y cysgod

5. Rhannwch hyd cysgod y ffon â hyd cysgod yr adeilad neu'r goeden

6. Fe gewch wybod beth yw uchder y goeden neu'r adeilad, mewn metrau a ffractsiynau o fetrau

7. Os byddwch yn ailadrodd yr ymarfer fis yn ddiweddarach, bydd yr haul ar ongl wahanol, ond dylai'r canlyniad fod yn union yr un fath o hyd

8. Gallech dreulio rhywfaint o amser yn y dosbarth, yn ymestyn y syniad o ddefnyddio trioglau tebyg i gyfrifo hydroedd

